

Senedd Cymru

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Ynni adnewyddadwy yng Nghymru

Mai 2022



www.cynulliad.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddHinsawdd@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddHinsawdd](https://twitter.com/SeneddHinsawdd)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Ynni adnewyddadwy yng Nghymru

Mai 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



Janet Finch-Saunders AS
Ceidwadwyr Cymreig



Huw Irranca-Davies AS
Llafur Cymru



Delyth Jewell AS
Plaid Cymru



Jenny Rathbone AS
Llafur Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Argymhellion	5
Rhagair y Cadeirydd	8
Cyflwyniad.....	9
1. Strategaeth a thargedau.....	10
Polisi ynni yng Nghymru.....	10
Targedau ynni adnewyddadwy.....	10
Gwaith Ymchwil Manwl Llywodraeth Cymru i ynni adnewyddadwy.....	10
Faint o gynnydd sydd wedi'i wneud?.....	11
Ein barn ni	12
2. Y grid yng Nghymru.....	14
Camau gweithredu Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r grid yng Nghymru	14
Mae diffyg capasiti grid yn cyfyngu ar ddatblygiad ynni adnewyddadwy	14
Cost cysylltiad grid	16
Y llwybr at fuddsoddi mewn seilwaith grid	16
Uchelgeisiau ar gyfer Pensaer System Ynni i Gymru	17
Ein barn ni	17
3. Cydsyniadau a thrwyddedu	20
Diffyg capasiti ac adnoddau ar gyfer penderfyniadau amserol.....	21
Mae heriau arbennig yn bodoli ar gyfer datblygiadau ynni morol.....	21
Diffyg sail dystiolaeth forol gadarn.....	22
Trefn cydsynio seilwaith newydd i Gymru	23
Ein barn ni	24
4. Cyfleoedd i gynyddu ynni cymunedol a lleol yng Nghymru.....	26
Cynyddu 'rhanberchnogaeth'	26
Gwellu mynediad i dir cyhoeddus	27

Arferion caffael cyhoeddus cefnogol28

Rôl Ynni Cymru29

Trefniadau budd cymunedol30

Ein barn ni31

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r rhesymau dros yr arafu yn y gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy ers 2015, a sut y bydd yr argymhellion o'r gwaith ymchwil manwl yn mynd i'r afael â hyn..... Tudalen 13

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu manwl sy'n nodi sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â phob un o argymhellion y gwaith ymchwil manwl, gan gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd tuag at weithredu'r argymhellion yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, ac ymrwmo i adroddiadau cynnydd bob chwe mis wedi hynny..... Tudalen 13

Argymhelliad 3. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwmo i uchelgais y bydd Cymru yn dod yn allforiwr net ynni adnewyddadwy. Dylai bennu sut y bydd yn cyflawni'r uchelgais honno. Dylid datblygu targedau ynni adnewyddadwy mwy uchelgeisiol i danategu'r gwaith..... Tudalen 13

Argymhelliad 4. Cafodd adroddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gynnydd tuag at ei thargedau ynni adnewyddadwy ei gyhoeddi dros ddwy flynedd yn ôl. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hadroddiad nesaf fel mater o flaenoriaeth. Tudalen 13

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanwl y camau y mae'n eu cymryd, ac yn bwriadu eu cymryd, i sicrhau bod gofynion seilwaith grid Cymru nawr ac yn y dyfodol yn cael eu bodloni. Dylai hefyd roi diweddariad ar ei Phrosiect Grid Ynni'r Dyfodol..... Tudalen 18

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac Ofgem i sicrhau:

- bod gofynion seilwaith grid Cymru nawr ac yn y dyfodol yn cael eu deall a'u bodloni'n llawn, a
- bod penderfyniadau buddsoddi yn cael eu gwneud mewn ffordd sy'n sicrhau cyfnod pontio cyfiawn. Tudalen 19

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru geisio trafodaethau ar frys ynghylch diffyg capasiti y grid yng Nghymru yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd. Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad y trafodaethau hynny..... Tudalen 19

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n bwriadu bwrw ymlaen â'i chynnig ar gyfer Pensaer System Ynni i Gymru a sut y bydd yn gwneud hynny, gan ystyried tystiolaeth Ofgem i'r Pwyllgor hwn..... Tudalen 19

Argymhelliad 9. Os yw Llywodraeth Cymru am gyflawni ei huchelgais ar gyfer ynni adnewyddadwy, rhaid iddi sicrhau bod anghenion o ran adnoddau partneriaid cyflawni allweddol, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol, yn cael eu diwallu'n llawn. Rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio opsiynau i sicrhau bod gan awdurdodau cynllunio lleol yr holl adnoddau sydd eu hangen ar wasanaethau i fodloni'r galw nawr ac yn y dyfodol sy'n deillio o'r twf yn y sector ynni adnewyddadwy..... Tudalen 25

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu cynigion deddfwriaethol ar gyfer ei Bil Cydsynio Seilwaith Cymru, gan gynnwys amserlen ddangosol ar gyfer cyflwyno'r Bil. Tudalen 25

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gamau y bydd yn eu cymryd i symleiddio'r broses ar gyfer datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy y Môr Celtaidd fel y nodir yn argymhellion y gwaith ymchwil manwl. Tudalen 25

Argymhelliad 12. Rhaid i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar ranberchnogaeth nodi'n glir ei disgwyliad i ddatblygwyr masnachol gynnig rhanberchnogaeth fel opsiwn ar gyfer pob prosiect newydd, gan gynnwys y rheini sydd yn yr arfaeth, ac ar gyfer datblygiadau presennol pan gânt eu hailbweru neu eu hymestyn..... Tudalen 32

Argymhelliad 13. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n defnyddio'r ysgogiadau sydd ganddi i annog a chymell rhanberchnogaeth..... Tudalen 32

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar y defnydd o dir cyhoeddus (gan gynnwys tir sy'n eiddo i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol) ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ac egluro sut y mae'n gweithio gyda'r sector cyhoeddus i nodi safleoedd sy'n eiddo cyhoeddus sy'n addas ar gyfer prosiectau posibl. Tudalen 32

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ystyried sut, os o gwbl, y gellir defnyddio'r ystâd gyhoeddus yn well i gefnogi twf y sector ynni adnewyddadwy, gan gynnwys datblygiadau rhanberchnogaeth..... Tudalen 32

Argymhelliad 16. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau bod cymunedau lleol yn cael eu cefnogi a'u grymuso i sicrhau 'buddion cymunedol' o ddatblygiadau masnachol lle nad yw rhanberchnogaeth yn cael ei hystyried yn opsiwn ffafriol. Rhaid iddi hefyd nodi ei safbwynt ar orfodi lefel briodol ar gyfer Cronfeydd Budd Cymunedol, gan gynnwys opsiynau ar gyfer cyflawni hyn..... Tudalen 32

Argymhelliad 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at ddatblygu cynigion ar gyfer Ynni Cymru, gan gynnwys sut y bydd yn ategu gwaith y sector masnachol, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd â'r nod o gefnogi prosiectau'r gymuned a'r sector cyhoeddus.
..... Tudalen 32

Rhagair y Cadeirydd

Gyda'r argyfwng ynni byd-eang yn dwysáu, cynnydd sylweddol yng nghostau ynni domestig, a'r cloc yn tician wrth i ni lithro'n nes at drychineb newid hinsawdd, mae'r achos dros gynyddu'r ymdrechion i ddatblygu ynni adnewyddadwy yn gryfach nag erioed.

Mae daearyddiaeth a thopograffi Cymru yn cynnig cyfleoedd helaeth ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy, ar y tir ac ar y môr. Os manteisir ar y cyfleoedd hyn, gall Cymru fynd y tu hwnt i ddiwallu anghenion ynni domestig i fod yn arweinydd byd-eang ym maes cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan gyflenwi ynni glân a fforddiadwy ledled y DU a thu hwnt.

Ond mae rhwystrau arwyddocaol, hirsefydlog i waith datblygu y mae angen mynd i'r afael â hwy ar frys, er mwyn i Gymru ddatgloi ei photensial llawn o ran ynni adnewyddadwy. Mae diffyg capasiti y grid a chyfundren ganiatáu gymhleth ac araf, ymhlith pethau eraill, yn atal y gwaith o ddatblygu dyfodol sy'n fwy adnewyddadwy o ran ynni. Os nad eir i'r afael â hyn, mae perygl gwirioneddol y bydd Cymru yn methu â chyflawni ei hymrwymiaid newid hinsawdd, gan golli allan ar y buddiannau cymdeithasol ac economaidd a ddaw yn sgil y chwyldro ynni adnewyddadwy.

Yn dilyn gwaith ymchwil manwl Llywodraeth Cymru, rydym yn disgwyl gweld camau gweithredu wedi'u targedu a chynnydd amlwg tuag at sicrhau targedau ynni adnewyddadwy mwy uchelgeisiol.

Rydym hefyd yn benderfynol y bydd y twf mewn ynni adnewyddadwy rydym yn galw amdano o fudd i gymunedau Cymru. Rhaid i'n cymunedau gael mwy na chyfle i fynegi eu barn ar brosiectau, rhaid iddynt hefyd fod yn rhanddeiliaid gweithredol – gan elwa ar y manteision yn sgil y newid i ynni adnewyddadwy. Ni ddylem orfod derbyn datblygiadau yn ein cymunedau, ond gallu eu croesawu gan wybod y byddant yn cyfrannu at ddyfodol sy'n fwy glân a chynaliadwy ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Cyflwyniad

1. Wrth bennu ei flaenoriaethau ar gyfer y Chwchedd Senedd, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad undydd i ynni adnewyddadwy yng Nghymru, gan fyfrio ar **ganlyniad Gwaith Ymchwil Manwl Llywodraeth Cymru i ynni adnewyddadwy**.
2. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan amrywiaeth o randdeiliaid yn ei gyfarfod ar **3 Mawrth 2022**. Gellir gweld dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan randdeiliaid ar **wefan Senedd Cymru**.
3. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at ei waith.

1. Strategaeth a thargedau

Polisi ynni yng Nghymru

4. Mae dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â pholisi ynni wedi'i nodi yn ***Ynni Cymru: Y newid i garbon isel*** (Mawrth 2012). Ategwyd hyn gan amrywiol ddatganiadau polisi, gan gynnwys, ***Perchnogaeth leol ar gynhyrchu ynni yng Nghymru – er budd Cymru heddiw a chenedlaethau'r dyfodol*** (Chwefror 2020).

Targedau ynni adnewyddadwy

5. Mae targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Cymru i gynhyrchu 70 y cant o'i defnydd trydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2030;
- 1 GW o gapasiti trydan a gwres adnewyddadwy yng Nghymru i fod mewn perchnogaeth leol¹ erbyn 2030; ac
- Erbyn 2020, rhaid i brosiectau ynni newydd gynnwys o leiaf elfen o berchnogaeth leol.²

6. Yn 2019, amcangyfrifwyd bod 51 y cant o'r galw am drydan yng Nghymru yn dod o ffynonellau ynni adnewyddadwy Cymru. Roedd 825MW o gapasiti ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol yng Nghymru, sef 83 y cant o'r targed 1GW.³

7. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu ei thargedau ynni adnewyddadwy yng nghyd-destun targed Sero Net Cymru ar gyfer 2050 ac i ymgynghori ar ei chanfyddiadau erbyn diwedd 2022.⁴

Gwaith Ymchwil Manwl Llywodraeth Cymru i ynni adnewyddadwy

8. Ym mis Hydref 2021, ***cyhoeddodd*** Llywodraeth Cymru y byddai'n cynnal gwaith ymchwil manwl i ynni adnewyddadwy i nodi rhwystrau i gynyddu ynni adnewyddadwy'n sylweddol yng

¹ Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio gosodiadau ynni 'mewn perchnogaeth leol' fel y rhai sy'n eiddo i unigolyn/unigolion neu sefydliad sy'n berchen yn gyfan gwbl ac wedi'i leoli yng Nghymru, neu sefydliad sydd â'i brif bencadlys yng Nghymru.

² Cyhoeddwyd y targedau'n wreiddiol ym mis Medi 2017, ond fe'u diwygiwyd ym mis Chwefror 2020.

³ ***Cynhyrchu ynni yng Nghymru 2019***, Llywodraeth Cymru, Hydref 2021

⁴ ***Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025)***, Llywodraeth Cymru, Hydref 2022

Nghymru a chamau i'w goresgyn. Cyhoeddwyd **canlyniad** y gwaith ymchwil manwl, gan gynnwys cyfres o **argymhellion**, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021.

9. Wrth gyhoeddi canlyniad y gwaith ymchwil manwl, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

*"Mae ein gweledigaeth yn glir, rydym am i Gymru gynhyrchu ynni adnewyddadwy i ddiwallu ein hanghenion ynni yn llawn o leiaf a defnyddio cynhyrchu dros ben i fynd i'r afael ag argyfyngau'r hinsawdd a natur. Byddwn yn cyflymu'r camau gweithredu i leihau'r galw am ynni a gwneud y mwyaf o berchnogaeth leol gan gadw manteision economaidd a chymdeithasol yng Nghymru."*⁵

10. Yn dilyn y gwaith ymchwil manwl, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ehangu Cynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol⁶ i greu Cynllun Ynni Cenedlaethol erbyn 2024, gan fapio'r galw a'r cyflenwad ynni yn y dyfodol ar gyfer pob rhan o Gymru i nodi bylchau er mwyn gallu cynllunio ar gyfer system sy'n hyblyg ac yn glyfar – sy'n cyfateb cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol â'r galw am ynni.⁷

Faint o gynnydd sydd wedi'i wneud?

11. Roedd safbwyntiau cymysg ymhlith cyfranwyr ynghylch targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru a'i chynnig i'w hadolygu. Dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig a RenewablesUK Cymru eu bod yn deall y targedau presennol yn dda ac yn cwestiynu'r angen am newid. Dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig wrth y Pwyllgor fod angen canolbwyntio llawer mwy ar gyflawni yn hytrach na symud y targedau ymhellach.⁸ Pwysleisiodd RWE Renewables UK ac EDF Renewables bwysigrwydd targedau clir i roi sicrwydd i ddatblygwyr fuddsoddi.

12. Mynegodd sawl cyfrannwr bryder na fyddai'r targedau presennol yn cael eu cyflawni oni bai bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhwystrau presennol i ddatblygu ynni adnewyddadwy. Er eu bod yn croesawu'r gwaith ymchwil manwl fel cam cadarnhaol ymlaen, cwestiynwyd a yw'r argymhellion yn mynd yn ddigon pell mewn perthynas â rhai materion, er enghraifft y grid.

⁵ Datganiad ysgrifenedig: **Canlyniad y Gwaith Ymchwil Manwl i Ynni Adnewyddadwy**, Rhagfyr 2021

⁶ Mae Cynllunio Ynni Ardal Leol yn cynnwys dull manwl i nodi'r camau gweithredu i ddatgarboneiddio system ynni leol. Nod y broses yw llywio, ffurfio a galluogi agweddau allweddol ar y newid i system ynni carbon isel, gan nodi beth sydd angen digwydd, ble ac erbyn pryd.

⁷ Datganiad ysgrifenedig: **Canlyniad y Gwaith Ymchwil Manwl i Ynni Adnewyddadwy**, Rhagfyr 2021

⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 33, 3 Mawrth 2022

13. Roedd cyfranwyr yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i gynyddu perchnogaeth leol i'r eithaf ond pwysleisiodd fod angen gweithredu ymhellach i gynyddu datblygiad ynni cymunedol a lleol (gweler Pennod 0). Fodd bynnag, rhybuddiodd RWE Renewables UK, "dim ond drwy ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fawr yn gyflym y cyflawnir y targedau uchelgeisiol i gyrraedd sero net".⁹

14. Mynegodd datblygwyr y farn nad oedd gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy yn ddigon clir a bod diffyg uchelgais. Awgrymwyd y gallai canolbwyntio ar baru cynhyrchiant ynni adnewyddadwy lleol â'r galw am ynni gyfyngu ar dwf y sector, gan fforffedu manteision cymdeithasol ac economaidd sylweddol. Pwysleisiodd y datblygwyr fod gan Gymru botensial enfawr ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a nodwyd y dylai Llywodraeth Cymru fynegi'n gliriach ei huchelgais i Gymru ddod yn allforiwr net o ynni adnewyddadwy.

Ein barn ni

Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae'r broses o ddatblygu ynni adnewyddadwy wedi arafu ers 2015. Wrth inni wynebu cyfnod allweddol yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd, ac wrth i brisiau ynni saethu i fyny a phryderon ynghylch diogelwch ynni gynyddu, rhaid i Lywodraeth Cymru adnewyddu, ar frys, ei ffocws ar ynni adnewyddadwy.

Mae gwaith ymchwil manwl Llywodraeth Cymru yn amserol, ac mae ei hargymhellion wedi cael derbyniad da gan randdeiliaid a'r diwydiant. Ond nid yw ond yn crafu'r wyneb o ran yr hyn sydd ei angen i gyflymu'n sylweddol y gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy er mwyn atal yr argyfwng hinsawdd a gwella diogelwch ynni domestig. Nid yw'r rhwystrau i ddatblygiad a nodwyd yn y gwaith ymchwil manwl, a chan gyfranwyr at ein hymchwiliad, yn newydd, yn yr un modd ag addewidion gweithredu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hwy. Roedd strategaeth ynni 2012 Llywodraeth Cymru yn addo ystod o gamau gweithredu i wella'r broses gynllunio a chydysnio, a seilwaith grid yng Nghymru, ymhlith pethau eraill. Ddegawd yn ddiweddarach, mae'r un addewidion yn cael eu gwneud. Dyma'r amser i Lywodraeth Cymru gadw at ei gair, a hynny ar unwaith. Mae'r potensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn sylweddol, gyda digonedd o gyfleoedd ar gyfer datblygiadau ar y tir ac ar y môr. Mae hyn yn golygu bod Cymru mewn sefyllfa dda i fynd y tu hwnt i ddiwallu angen domestig i ddod yn arweinydd byd eang ym maes cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan gyflenwi ynni glân i rannau

⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE05 RWE Renewables UK

eraill o'r DU a thu hwnt. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru fod yn gliriach mai ei huchelgais yw i Gymru fod yn allforiwr net o ynni adnewyddadwy.

Rhaid i Lywodraeth Cymru bennu targedau ynni adnewyddadwy mwy uchelgeisiol. Rhaid i'r targedau hyn gyfateb i gamau gweithredu amlwg i gyflymu'r gwaith datblygu ar y raddfa a'r cyflymder sydd eu hangen i Gymru gyflawni ei hymrwymadau newid hinsawdd a dod yn allforiwr net ynni adnewyddadwy.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r rhesymau dros yr arafu yn y gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy ers 2015, a sut y bydd yr argymhellion o'r gwaith ymchwil manwl yn mynd i'r afael â hyn.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu manwl sy'n nodi sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â phob un o argymhellion y gwaith ymchwil manwl, gan gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd tuag at weithredu'r argymhellion yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, ac ymrwymo i adroddiadau cynnydd bob chwe mis wedi hynny.

Argymhelliad 3. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i uchelgais y bydd Cymru yn dod yn allforiwr net ynni adnewyddadwy. Dylai bennu sut y bydd yn cyflawni'r uchelgais honno. Dylid datblygu targedau ynni adnewyddadwy mwy uchelgeisiol i danategu'r gwaith.

Argymhelliad 4. Cafodd adroddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gynnydd tuag at ei thargedau ynni adnewyddadwy ei gyhoeddi dros ddwy flynedd yn ôl. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hadroddiad nesaf fel mater o flaenoriaeth.

2. Y grid yng Nghymru

15. Mae'r grid yn cyfeirio at y rhwydwaith o linellau pŵer, peilonau a rhyng-gysylltwyr sy'n rhan o system drydan y DU. Fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod trydan a gynhyrchir yn unrhyw le, gan unrhyw ffynhonnell, yn gallu cael ei drosglwyddo i ateb y galw am bŵer lle bynnag y mae ei angen. Mae'r grid yn cynnwys system drawsyrro foltedd uchel sy'n cysylltu trydan o orsafoedd pŵer i is-orsafoedd a rhwydweithiau lleol llai. Mae'r gweithredwyr rhwydwaith llai, a elwir yn Weithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu, yn cludo trydan i gartrefi a busnesau. Mae'r system drawsyrro yn eiddo i'r Grid Cenedlaethol. Yng Nghymru ceir dau Weithredwr Rhwydwaith Dosbarthu - Western Power Distribution ac SP Energy Networks. Cyfeirir at y rhain gyda'i gilydd fel 'cwmnïau/gweithredwyr y rhwydwaith ynni'.

16. Mae buddsoddiad mewn seilwaith grid gan gwmnïau rhwydwaith ynni wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd gan y rheoleiddiwr, Ofgem, drwy reolaethau prisiau pum mlynedd.

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r grid yng Nghymru

17. Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n arwain ar Brosiect Grid Ynni'r Dyfodol gydag Ofgem a gweithredwyr rhwydwaith ynni "i ddatblygu cynllun tymor hir ar gyfer rhwydweithiau ynni Cymru". Ffocws y Prosiect fydd "dod i gasgliad cytûn ar anghenion ynni tebygol Cymru hyd 2050 ac ar y camau y bydd angen i ddatblygu'r rhwydweithiau i'w diwallu".

18. Wrth gyhoeddi canlyniad y gwaith ymchwil manwl, dywedodd Llywodraeth Cymru fod "angen mwy o weithredu i wella tryloywder ar gyfyngiadau a chyfleoedd o fewn y rhwydwaith a dod â mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch lle mae angen buddsoddiad strategol yn y rhwydweithiau".¹⁰ Mae wedi ymrwmo i gynyddu ei ymgysylltiad ag Ofgem i nodi anghenion buddsoddi Cymru, a sefydlu gweithgor ar y cyd i ystyried opsiynau ar gyfer cefnogi cysylltiadau grid newydd, hyblyg ar gyfer ynni adnewyddadwy a datrysiadau storio ynni.

Mae diffyg capasiti grid yn cyfyngu ar ddatblygiad ynni adnewyddadwy

19. Tynnodd datblygwyr ac Ynni Cymunedol Cymru sylw at gapasiti grid annigonol fel rhwystr sylweddol i gynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy ac i gyflawni targedau lleihau allyriadau carbon Cymru. Mynegodd EDF Renewables bryder nad yw argymhellion y gwaith ymchwil

¹⁰ Datganiad ysgrifenedig: Canlyniad y Gwaith Ymchwil Manwl i Ynni Adnewyddadwy, Rhagfyr 2021

manwl “yn mynd yn ddigon pell i fynd i’r afael â’r rhwystr sylweddol y mae’r grid yn ei achosi ar gyfer datblygu”. Ychwanegodd:

“Ni all fod unrhyw gamargraff: heb fuddsoddiad angenrheidiol mewn seilwaith grid newydd, neu gynlluniau i uwchraddio'r seilwaith presennol yng Nghymru yn y tymor byr, ni fydd y datblygiad mewn ynni adnewyddadwy sydd ei angen i gyrraedd targedau 2030 a 2050 yn digwydd, heb sôn am darged newydd yn 2035. Ni fydd datblygiad chwaith yn digwydd ar y cyflymder a’r raddfa ofynnol.”¹¹

20. Dywedodd RWE Renewables UK fod “diffyg argaeledd cysylltiadau grid cost effeithiol ac amserol ledled Cymru, yn enwedig mewn perthynas ag ynni ar y tir ond sydd hefyd yn fwyfwy perthnasol i’r môr, yn rhwystr difrifol nid yn unig i brosiectau ynni adnewyddadwy newydd, ond hefyd i uchelgeisiau i ddatgarboneiddio economi gyfan Cymru”.¹² Yn ôl EDF Renewables, “gallai’r potensial ar gyfer datblygu yn y Môr Celtaidd gyfrannu’n helaeth at uchelgeisiau Cymru. Ond heb osod neu atgyfnerthu grid, gellid diystyru terfynellau yng Nghymru o blaid Lloegr”.¹³

21. Eglurodd cyfranwyr, er bod capasiti’r grid yn broblem ledled Cymru, ei fod ar ei waethaf yng nghanolbarth Cymru. Yn ôl Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu, mae hyn oherwydd bod y rhwydwaith trydan wedi’i gynllunio’n wreiddiol i gyflenwi lefelau isel o alw gwledig lleol. Amlinellodd SP Energy Networks (SPEN) ei gynlluniau i “[f]uddsoddi i gynyddu defnydd o’n rhwydwaith presennol hyd y 2030au cynnar”¹⁴ i ddarparu ar gyfer twf yn y galw yng nghanolbarth Cymru.

22. Gwnaeth Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu yn glir, yn y tymor hwy, er mwyn darparu ar gyfer meintiau mawr o gynhyrchiant yng Nghymru, bod angen capasiti rhwydwaith ychwanegol newydd.

23. Croesawodd y cyfranwyr Brosiect Grid Ynni’r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mynegodd RWE Renewables UK y farn y dylai’r sector fod yn rhan o’r Prosiect a dywedodd “[nad yw’n] glir chwaith pa gynydd, os o gwbl, sydd wedi’i wneud”.¹⁵

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE06 EDF Renewables

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, RE05 RWE Renewables UK

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE06 EDF Renewables

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE03, SP Energy Networks

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE05 RWE Renewables UK

Cost cysylltiad grid

24. Pan fydd datblygwr yn ceisio cysylltiad â'r rhwydwaith, bydd y Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu yn ystyried pa waith fydd ei angen i alluogi'r cysylltiad hwnnw. Gallai hyn gynnwys gosod asedau newydd i ymestyn y rhwydwaith presennol ac, mewn rhai achosion, atgyfnerthu'r rhwydwaith presennol. Rhennir cost y gwaith hwn rhwng y datblygwr (drwy dâl cysylltu ymlaen llaw) a'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu.

25. Awgrymodd rhai cyfranwyr y gallai costau cysylltu ymlaen llaw wneud prosiectau'n anhyfyw ac felly'n rhwystr i ddatblygiad. Eglurodd Ofgem ei fod yn y broses o **adolygu'r** trefniadau presennol ar gyfer codi tâl am gysylltiad. Mae hyn yn cynnwys cynigion i 'gymdeithasu' costau fel na fydd yn rhaid i'r datblygwr dalu'r gost o atgyfnerthu'r grid mwyach.

Y llwybr at fuddsoddi mewn seilwaith grid

26. Eglurodd Ofgem fod seilwaith grid fel arfer yn dilyn datblygiad prosiectau cynhyrchu. Mae datblygwyr yn ceisio cysylltu â'r rhwydwaith trawsyrru neu ddsbarthu, ac mae'n ofynnol i ddarparwyr rhwydwaith gynnig telerau cysylltu, sy'n cynnwys gwaith lleol ac unrhyw atgyfnerthiad angenrheidiol i alluogi mynediad i'r farchnad drydan ehangach.

27. Mynegwyd pryderon gan rai cyfranwyr fod y dull 'cyw iâr ac wy' presennol o fuddsoddi mewn seilwaith grid yn cyfyngu ar ddatblygu ynni adnewyddadwy. Dywedodd RWE Renewables UK, "er mwyn rhoi hwb i uwchraddio seilwaith grid" a "rhoi hyder i ddatblygwyr ddatblygu prosiectau" y dylai Llywodraeth Cymru "roi sail ariannol i'r seilwaith, dichonoldeb grid a gwariant caniatâd sydd ei angen ochr yn ochr ag ymdrechion i sicrhau buddsoddiad rhagweladwy drwy Ofgem".¹⁶

28. Tynnodd RenewablesUK Cymru sylw at bwysigrwydd buddsoddiad rhagweladwy a chroesawodd fwriad Llywodraeth Cymru i weithio gydag Ofgem i fwrw ymlaen â hyn.

29. Dywedodd Ofgem wrth y Pwyllgor:

"[Our] approach to approving anticipatory investment is shifting. Our position is to remain open to anticipatory investment as long as clear and robust evidence of need, potential costs and benefits is provided...we must remain mindful that our role is to strike a deal on behalf of every household billpayer in Wales. Any funding for anticipatory investment needs to align with the

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE05 RWE Renewables UK

granting of planning consents for new infrastructure, which must also be supported by strong evidence of need.”¹⁷

30. Pwysleisiodd Ofgem fod penderfyniadau strategol mawr am y cymysgedd o dechnoleg cynhyrchu a’i leoliad yn faterion i’r Llywodraeth a datblygwyr. Unwaith y bydd hyn yn glir, mae’n ddarn allweddol o dystiolaeth alluogi sy’n llywio asesiad Ofgem o gynigion cwmnïau rhwydwaith. Dywedodd Ofgem fod prosiect Grid Ynni’r Dyfodol Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y sail dystiolaeth hon.¹⁸

Uchelgeisiau ar gyfer Pensaer System Ynni i Gymru

31. Yn dilyn y gwaith ymchwil manwl, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i roi pwysau ar Ofgem i greu Pensaer System Ynni i Gymru. Diben Pensaer System Ynni i Gymru fyddai “[g]oruchwyllo buddsoddiad ar y môr ac ar y tir i gefnogi datblygiadau’r Moroedd Celtaidd, cefnogi achosion busnes ar gyfer cynllunio’r system gyfan a dwyn ynghyd gynlluniau ar draws De, Canolbarth a Gogledd Cymru a datblygu cynllun system gyfan manwl ar gyfer rhwydweithiau trosglwyddo a dosbarthu nwy a thrydan”.¹⁹

32. Dywedodd Ofgem wrth y Pwyllgor nad yw creu pensaer systemau ar gyfer y sector ynni fel arfer yn cyd-fynd â meddylfryd y Llywodraeth ganolog. At hynny, dywedodd Ofgem fod ei bwerau wedi’u cyfyngu i reoleiddio’r rhwydweithiau a chyfranogwyr y farchnad o dan y fframwaith sefydliadol presennol. Felly, mater i’r Llywodraeth yn hytrach nag Ofgem fydd creu pensaer systemau.²⁰

Ein barn ni

Nid yw seilwaith grid Cymru yn addas at y diben. Mae’n atal gwaith datblygu ynni adnewyddadwy. Mae angen buddsoddiad, atgyfnerthu ac uwchraddio ar y seilwaith.

Ers dros ddegawd, bu galwadau uchel a pharhaus am weithredu gan y llywodraeth i sicrhau gwelliannau i’r grid, gan gynnwys gan Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Bedwaredd Senedd. Ond, ychydig o gynnydd sydd wedi’i wneud, ac mae Cymru ymhell i ffwrdd o grid sy’n barod ac yn gallu cefnogi proses bontio gyflym i ynni adnewyddadwy.

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE08 Ofgem

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE08 Ofgem

¹⁹ Datganiad ysgrifenedig: Canlyniad y Gwaith Ymchwil Manwl i Ynni Adnewyddadwy, Rhagfyr 2021

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 231, 3 Mawrth 2020

Nid oes gan Lywodraeth Cymru lawer o ysgogiadau i sicrhau gwelliannau i'r grid yng Nghymru. Mae arwyddion calonogol ei bod yn cymryd camau i ddylanwadu'n rhagweithiol ar fuddsoddiad yn y grid yn y dyfodol, er enghraifft, drwy ei Phrosiect Grid Ynni'r Dyfodol. Ond, mae ymdeimlad clir gan gyfranwyr bod angen gwneud mwy, ac fel mater o frys, i fynd i'r afael â materion o ran capasiti y grid presennol.

Cawsom ein synnu bod canfyddiadau diweddar Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin yn awgrymu efallai nad yw Llywodraeth y DU yn ymwybodol o ddifrifoldeb materion o ran capasiti y grid yng Nghymru.²¹ Mewn gwirionedd, mae hyn yn frawychus, o ystyried bod y materion hyn wedi'u dogfennu'n dda ac yn hirsefydlog. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos mwy o arweiniad ac ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU ar y lefel uchaf i sicrhau bod gofynion seilwaith grid Cymru nawr ac yn y dyfodol yn cael eu deall a'u bodloni'n llawn.

Rydym yn croesawu ymchwiliad presennol y Pwyllgor Materion Cymreig i'r grid yng Nghymru ac yn aros gyda diddordeb i'w adroddiad gael ei gyhoeddi.

Nodwn gynnig Ofgem i 'gymdeithasu' costau sy'n gysylltiedig ag atgyfnerthu rhwydwaith. Er ein bod yn cefnogi nod sylfaenol y cynnig, rydym yn pryderu ynghylch yr effaith bosibl ar filiau trydan defnyddwyr Cymru, yn enwedig yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw parhaus.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi pwysau ar Ofgem i greu Pensaer System Ynni i Gymru yn llawn bwriadau da, ond mae'r dystiolaeth a gawsom gan Ofgem yn awgrymu bod yr ymrwymiad hwn yn gamarweiniol. Nid yw'n glir sut, os o gwbl, y bydd Llywodraeth Cymru yn gwireddu ei huchelgais ar gyfer Pensaer System Ynni i Gymru heb y lefel o gefnogaeth gan Ofgem yr oedd yn rhagweld y byddai'n ei chael.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanwl y camau y mae'n eu cymryd, ac yn bwriadu eu cymryd, i sicrhau bod gofynion seilwaith grid Cymru nawr ac yn y dyfodol yn cael eu bodloni. Dylai hefyd roi diweddariad ar ei Phrosiect Grid Ynni'r Dyfodol.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac Ofgem i sicrhau:

- bod gofynion seilwaith grid Cymru nawr ac yn y dyfodol yn cael eu deall a'u bodloni'n llawn, a

²¹ Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin. *Renewable energy in Wales. Second Report of Session 2021-22 (Saesneg yn unig)*. Gorffennaf 2021

- bod penderfyniadau buddsoddi yn cael eu gwneud mewn ffordd sy'n sicrhau cyfnod pontio cyfiawn.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru geisio trafodaethau ar frys ynghylch diffyg capasiti y grid yng Nghymru yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd. Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad y trafodaethau hynny.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n bwriadu bwrw ymlaen â'i chynnig ar gyfer Pensaer System Ynni i Gymru a sut y bydd yn gwneud hynny, gan ystyried tystiolaeth Ofgem i'r Pwyllgor hwn.

3. Cydsyniadau a thrwyddedu

33. Mae **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040**, sef Fframwaith Datblygu Cenedlaethol cyntaf Llywodraeth Cymru, yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer caniatáu datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel newydd a seilwaith cysylltiedig ar y tir, lle mae'r cyfrifoldeb dros roi cydsyniad wedi'i ddatganoli.

34. Mae **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru** yn nodi dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu yn yr amgylchedd morol.

35. Mae'r broses gydsynio a'r awdurdod cydsynio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn amrywio yn ôl y math o gynhyrchu ynni a maint y datblygiad. Yn fyr:

- awdurdodau cynllunio lleol sy'n penderfynu ar ddatblygiadau llai ar dir;
- Llywodraeth Cymru, drwy'r broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol sy'n penderfynu ar ddatblygiadau mwy ar dir, a rhai datblygiadau ar y môr, lle mae cydsyniad wedi'i ddatganoli; a
- Llywodraeth y DU sy'n penderfynu ar ddatblygiadau mwy ar y tir ac ar y môr (a elwir yn Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol), lle nad yw cydsyniad wedi'i ddatganoli, drwy'r broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

36. Mae angen trwydded forol ar gyfer pob datblygiad ynni morol. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am drwyddedu morol yn nyfroedd y glannau ac ar y môr yng Nghymru.

37. Wrth gyhoeddi canlyniad y gwaith ymchwil manwl, cydnabu'r Dirprwy Weinidog fod "angen cymryd camau pellach i wella trefniadau cydsynio, trwyddedu a chynghori statudol yng Nghymru i gyflwyno buddsoddiadau priodol".²² Yn dilyn argymhellion y gwaith ymchwil manwl, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o gydsynio a thystiolaeth a chyingor ategol, er mwyn sicrhau proses amserol a chymesur. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o drwyddedu morol i ddileu rhwystrau, ac adolygiad o anghenion o ran adnoddau.

²² Datganiad ysgrifenedig: Canlyniad y Gwaith Ymchwil Manwl i Ynni Adnewyddadwy, Rhagfyr 2021

Diffyg capasiti ac adnoddau ar gyfer penderfyniadau amserol

38. Mynegodd cyfranwyr bryder ynghylch y diffyg capasiti ac adnoddau o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol i ganiatáu ar gyfer gwneud penderfyniadau cydsyniad a thrwyddedu amserol.

39. Dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig fod cyllidebau awdurdodau cynllunio lleol wedi'u torri'n aruthrol ers 2010, sy'n cael effaith wirioneddol ar y gallu i brosesu a darparu cyngor a phopeth arall i roi'r prosiectau hyn ar waith.²³ Pwysleisiodd EDF Renewables yr angen i awdurdodau cynllunio lleol gael adnoddau digonol a chymryd i ystyriaeth yr uchelgeisiau hynny a nodir yn y polisiau rhanbarthol a chenedlaethol.²⁴

40. Dywedodd RWE Renewables UK wrth y Pwyllgor "nad oes gan CNC adnoddau priodol ar hyn o bryd...i gyflawni ei swyddogaethau statudol ac anstatudol mewn modd amserol. Gall hyn achosi oedi hir a chostus i brosiectau ac mae'n arbennig o wir am y cyngor ategol sydd ei angen gan CNC ar gyfer ein prosiectau ar y tir".²⁵

Mae heriau arbennig yn bodoli ar gyfer datblygiadau ynni morol

41. Yn ôl RWE Renewables UK, mae datblygiadau ynni morol yn nyfroedd Cymru yn "wynebu mwy o risg o gydsynio ac anfantais gystadleuol" o gymharu â'r rhai mewn mannau eraill yn y DU.²⁶ Eglurodd, yn wahanol i Loegr, nad yw Trwyddedau Morol Cymru yn cael eu hystyried o dan Orchymyn Cydsyniad Datblygu ond eu bod yn cael eu pennu ar wahân.²⁷ Nid oes amserlen glir i Cyfoeth Naturiol Cymru benderfynu ar Drwyddedau Morol Cymru ar gyfer Gorchmynion Cydsyniad Datblygu. Yn ôl RWE Renewables UK, dyma sy'n peri'r risg fwyaf i'r rhaglen gyflawni ar gyfer **Prosiect Awel y Môr** ar hyn o bryd.

42. Yn ei adroddiad, ***Renewing the Focus: Re-energising Wales Two Years On (Saesneg yn unig)***, tynnodd y Sefydliad Materion Cymreig sylw hefyd at y diffyg darpariaeth i Drwyddedau Morol Cymru gael eu hystyried o dan Orchymyn Cydsyniad Datblygu fel rhwystr posibl i ddatblygiad, a'r perygl o wneud Cymru yn llai deniadol na rhannau eraill o'r DU, er gwaethaf y potensial adnoddau sylfaenol. Galwodd y Sefydliad Materion Cymreig am broses

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 137, 3 Mawrth 2022

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 436, 3 Mawrth 2022

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE05 RWE Renewables UK

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE05 RWE Renewables UK

²⁷ Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn archwilio ceisiadau ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (Deddf 2008). Mae Deddf 2008 yn galluogi Gorchmynion Cydsyniad Datblygu ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn Lloegr i gynnwys darpariaethau sy'n pennu bod trwydded forol wedi'i rhoi o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

gydsynio gliriach a mwy diffiniedig i sicrhau bod ynni adnewyddadwy morol yn cael ei ddefnyddio'n amserol.

Diffyg sail dystiolaeth forol gadarn

43. Yn dilyn canlyniad y gwaith ymchwil manwl, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i "nodi bylchau tystiolaeth sy'n flaenoriaeth ar y môr ac ar y tir a dulliau o'u llenwi, er mwyn hwyluso'r broses ymgeisio". Mae'r gwaith hwn i'w gwblhau yng ngwanwyn 2022. At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo y bydd yn "nodi 'meysydd adnoddau strategol' morol erbyn 2023 ac yn rhoi canllawiau i gyfeirio meysydd priodol ac amhriodol ar gyfer datblygu gwahanol dechnolegau ynni adnewyddadwy".²⁸

44. Gofynnodd y Pwyllgor am farn Ystâd y Goron a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ar fylchau presennol yn y sail dystiolaeth forol yng nghyd-destun y twf a ragwelir mewn datblygiadau ynni adnewyddadwy morol.

45. Cyfeiriodd Ystâd y Goron a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur at yr angen i gydbwysu cyflymu ac ehangu ynni adnewyddadwy ar y môr i sicrhau Sero Net â diogelu'r amgylchedd morol ac atal dirywiad bioamrywiaeth. Pwysleisiodd Ystâd y Goron bwysigrwydd cael y data gorau posibl i danategu'r broses o wneud penderfyniadau ac i wneud yn siŵr bod unrhyw gyfaddawdu, y mae'n anochel y bydd angen iddo ddigwydd, yn gallu cael ei wneud yn y ffordd gywir.²⁹

46. Eglurodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur fod casglu tystiolaeth yn yr amgylchedd morol yn gostus a bod mynd i'r afael â bylchau yn cymryd amser, o ystyried yr amgylchedd deinamig a gwrthwynebus.³⁰ Dywedodd y Cyd-bwyllgor ei fod wedi bod yn arwain ar ddatblygu'r Gofrestr Tystiolaeth Amgylcheddol Gwynt ar y Môr, sef y gofrestr gyntaf erioed yn y DU o fylchau mewn tystiolaeth o wynt ar y môr. Cyfeiriodd y Cyd-bwyllgor hefyd at y Fforwm Strategol Monitro ac Ymchwil i Ynni Gwynt ar y Môr, sy'n ceisio nodi a mynd i'r afael â bylchau gwybodaeth am effeithiau datblygiadau gwynt ar y môr ar adar morol.

47. Dywedodd Ystâd y Goron y bydd ei Rhaglen Newid a Thystiolaeth Gwynt ar y Môr yn darparu mewnwelediadau hanfodol i helpu'r sector a llunwyr polisi i ddeall a mynd i'r afael yn well ag ystyriaethau amgylcheddol a rhyngweithio â diwydiannau a gweithgareddau eraill, o

²⁸ Datganiad ysgrifenedig: Canlyniad y Gwaith Ymchwil Manwl i Ynni Adnewyddadwy, Rhagfyr 2021

²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 289, 3 Mawrth 2022

³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 285, 3 Mawrth 2022

amgylch yr arfordir ac ar y môr.³¹ Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhan o'r Rhaglen.

48. Pan holwyd Ystâd y Goron ynghylch y potensial i ddatblygwyr rannu data morol y maent yn eu casglu i lywio eu cynigion, eglurodd:

*"we have, in all our commercial agreements with developers...data clauses that say, any surveys that you carry out, we respect your commercial confidentiality, but you have to supply us with those data, and after a period of a few years, which we agree with you, you will then make those data available to the public free of charge."*³²

49. Eglurodd hefyd ei fod newydd ail-lansio ei **Gyfnewidfa Data Morol**, sy'n darparu mynediad i ddata arolwg ac adroddiadau a gasglwyd gan ei gwsmeriaid agregau morol ac ynni adnewyddadwy ar y môr.

Trefn cydsynio seilwaith newydd i Gymru

50. Mae Llywodraeth Cymru wedi **ymrwymo** i sefydlu trefn Cydsyniad Seilwaith Cenedlaethol newydd i Gymru "i sicrhau bod gan Gymru drefniadau cydsynio effeithlon ac effeithiol ar gyfer datblygu adnewyddadwy ar y môr ac ar y tir, yn ogystal â seilwaith arall, yng Nghymru".³³ Mae eisiau 'dull siop-un-stop' ar gyfer prosiectau seilwaith mawr lle mae cydsyniad wedi'i ddatganoli, yn debyg i broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Llywodraeth y DU ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae'r dull hwn yn caniatáu i nifer o gydsyniadau eilaidd gael eu cynnwys yn y prif gydsyniad, yn hytrach na gorfod gwneud cais ar wahân.

51. Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i sefydlu trefn newydd ar gyfer rhoi cydsyniad seilwaith. **Ymgynghorodd** Llywodraeth Cymru ar gynigion cychwynnol yn 2018.

52. Galwodd EDF Renewables am "[d]refn gydsynio Gymreig gadarn ac iddi adnoddau da ac amserlenni clir...er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o berygl o oedi yn y rhaglen ar gyfer prosiectau sy'n symud ymlaen yn llwyddiannus at gais [Contractau Gwahaniaeth]".³⁴ Roedd yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno trefn seilwaith cydsynio newydd.

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE09 Ystâd y Goron

³² Cofnod y Trafodion, paragraff 289, 3 Mawrth 2022

³³ **Datganiad ysgrifenedig: Canlyniad y Gwaith Ymchwil Manwl i Ynni Adnewyddadwy**, Rhagfyr 2021

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE06 EDF Renewables

53. Mae nifer o gyfranwyr i **ymchwiliad y Pwyllgor i flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd** yn galw am gyflwyno'r Bil ar gydsynio seilwaith cyn gynted â phosibl.

Ein barn ni

Mae trefn gydsynio effeithlon, sydd ag adnoddau da, yn hanfodol er mwyn cefnogi twf y sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Nid yw'r broses bresennol yn cyflawni hyn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol yn chwarae rhan hollbwysig yn y broses gydsynio, ond mae diffyg capasiti ac adnoddau yn golygu eu bod yn cael trafferth darparu gwasanaethau mewn ffordd effeithiol ac amserol. Gall hyn rwystro ac oedi prosiectau, ac arwain at gostau uwch. Ers dechrau'r Chweched Senedd, rydym wedi bod yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i gyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau'n effeithiol. Rydym yn ailadrodd y galwadau hynny.

Rydym yn pryderu nad yw argymhellion y gwaith ymchwil manwl yn mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd i ni ynghylch awdurdodau cynllunio lleol. Rydym yn ymwybodol o waith sydd eisoes wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru i ddarparu strwythur ffioedd mwy sefydlog ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu, os o gwbl. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r materion hyn.

Bydd cryfhau capasiti ac adnoddau partneriaid cyflawni allweddol yn helpu i wella'r broses gydsynio bresennol i raddau. Fodd bynnag, bydd angen newidiadau deddfwriaethol i gyflawni'r broses symlach ac effeithlon y mae datblygwyr a'r sector cynllunio yn galw amdani. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ailddatgan ei hymrwymiad i ddeddfu ar gyfer trefn gydsynio newydd, mae amseriad Bil yn parhau i fod yn aneglur. Rydym yn pryderu bod y cynnydd tuag at ddatblygu Bil wedi arafu, a bod y drefn newydd yn dal i fod flynyddoedd i fwrdd.

Fel yr amlinellwyd yn ein **Hadroddiad diweddar ar bolisiâu morol Llywodraeth Cymru**, mae diffyg sail dystiolaeth gadarn i danategu penderfyniadau datblygu yn golygu bod risgiau cynhenid o ran cyflymu datblygiad ar y môr. O ystyried y twf a ragwelir yn y sector ar y môr yn y blynyddoedd i ddod, rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i nodi bylchau dystiolaeth forol â blaenoriaeth a mecanweithiau i'w llenwi. Rydym eisoes wedi gofyn i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Cawn ein calonogi gan y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ac Ystâd y Goron i wella'r sail dystiolaeth forol, ac rydym yn croesawu ail-lansio'r Gyfnewidfa Data Morol.

Argymhelliad 9. Os yw Llywodraeth Cymru am gyflawni ei huchelgais ar gyfer ynni adnewyddadwy, rhaid iddi sicrhau bod anghenion o ran adnoddau partneriaid cyflawni allweddol, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol, yn cael eu diwallu'n llawn. Rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio opsiynau i sicrhau bod gan awdurdodau cynllunio lleol yr holl adnoddau sydd eu hangen ar wasanaethau i fodloni'r galw nawr ac yn y dyfodol sy'n deillio o'r twf yn y sector ynni adnewyddadwy.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu cynigion deddfwriaethol ar gyfer ei Bil Cydsynio Seilwaith Cymru, gan gynnwys amserlen ddangosol ar gyfer cyflwyno'r Bil.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gamau y bydd yn eu cymryd i symleiddio'r broses ar gyfer datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy y Môr Celtaidd fel y nodir yn argymhellion y gwaith ymchwil manwl.

4. Cyfleoedd i gynyddu ynni cymunedol a lleol yng Nghymru

54. Elfen allweddol o bolisi ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod cymaint â phosibl o berchnogaeth leol ar ddatblygiadau fel modd o sicrhau bod buddiannau economaidd a chymdeithasol yn cael eu cadw yng Nghymru.

55. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Datganiad Polisi: perchnogaeth leol ar gynhyrchu ynni** ym mis Chwefror 2020.

56. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy gan gyrrff cyhoeddus a mentrau cymunedol yng Nghymru gan dros 100MW rhwng 2021 a 2026.³⁵

57. Yn dilyn y gwaith ymchwil manwl, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i amrywiaeth o gamau gweithredu gyda'r nod o gynyddu datblygiadau ynni adnewyddadwy cymunedol a lleol, gan gynnwys:

- ystyried opsiynau i gefnogi cynhyrchu drwy Ardrethi Annomestig a defnyddio pŵer prynu'r sector cyhoeddus i gefnogi llwybrau dibynadwy i'r farchnad;
- annog datblygwyr preifat i gynnwys opsiynau ar gyfer perchnogaeth leol a chymunedol a rennir gan gynnwys drwy dendrau a gyhoeddir ar dir cyhoeddus;
- gwella mynediad i'r ystâd gyhoeddus ar gyfer y sector ynni cymunedol; a
- chyhoeddi canllawiau ar ranberchnogaeth, gan gynnwys yr hyn sy'n bodloni'r diffiniad o 'ranberchnogaeth', a gweithio'n agos gyda datblygwyr preifat i gael yr effaith fwyaf posibl.

Cynyddu 'rhanberchnogaeth'

58. Tynnodd sawl cyfrannwr sylw at yr angen am gynydd mewn prosiectau rhanberchnogaeth³⁶ i ysgogi mwy o berchnogaeth gymunedol a lleol os yw Llywodraeth Cymru

³⁵ Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025), Llywodraeth Cymru, Hydref 2022

³⁶ Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio 'rhanberchnogaeth' fel prosiect y mae mwy nag un endid cyfreithiol yn berchen arno. Ceir enghreifftiau lle rhennir perchnogaeth prosiect rhwng datblygwr a grŵp cymunedol, unigolion, tirfeddianwyr, neu sefydliad sector cyhoeddus. Gall prosiectau rhanberchnogaeth gynnwys mwy nag un sefydliad masnachol.

am gyrraedd ei tharged perchnogaeth leol ar gyfer 2030. Er bod Ripple Energy yn croesawu argymhellion y gwaith ymchwil manwl, roedd yn credu, er mwyn annog rhanberchnogaeth, y dylai Llywodraeth Cymru fynnu bod pob prosiect ynni adnewyddadwy newydd yn sicrhau bod o leiaf 30 y cant o gapasiti y prosiect ar gyfer perchnogaeth defnyddwyr ar gael.³⁷ Mynegwyd barn debyg gan y Sefydliad Materion Cymreig.

59. Dywedodd Ripple Energy wrth y Pwyllgor fod ei fodel rhanberchnogaeth yn dangos y gall cymunedau/defnyddwyr gymryd rhan yn llwyddiannus mewn prosiectau ar raddfa fawr. Mae model Ripple Energy yn galluogi defnyddwyr i fod yn rhannol berchen ar ffermydd gwynt ar raddfa fawr drwy gydweithfeydd perchnogaeth. Mae'n partneru â chyflenwyr ynni sy'n cyflenwi trydan perchnogion o'u fferm wynt i'w cartref drwy'r grid. Mae cyd-berchnogion yn cael arbedion ar eu biliau trydan yn seiliedig ar faint mae eu cyfran o'r fferm wynt yn ei gynhyrchu.

60. Mae RWE Renewables UK yn ymwneud â dau brosiect rhanberchnogaeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mynegodd y farn y byddai rhanberchnogaeth yn arbennig o heriol ar gyfer prosiectau ar raddfa fawr, megis Awel y Môr, o ystyried y gofynion gwariant cyfalaf, yr amserlenni a'r risg ariannol dan sylw. Dywedodd RWE Renewables UK:

*"You've got to really ask yourself: is that appropriate for a local community to put money into? Are they really wanting the risk? We've seen lots of examples where local authorities and stuff around the UK have got involved in schemes and lost a considerable amount of money. And we also have to be careful, as developers, not to be selling schemes that we don't think are a good use of public money."*³⁸

Gwella mynediad i dir cyhoeddus

61. Tynnodd sawl cyfrannwr sylw at yr her o gael mynediad at dir ar gyfer prosiectau cymunedol ac awgrymwyd y byddai mynediad gwell i dir cyhoeddus a'r ystâd gyhoeddus yn helpu i fynd i'r afael â hyn. Dywedodd Ynni Cymunedol Cymru wrth y Pwyllgor:

*"Public land is an obvious place where Welsh Government actually does have influence over. We could be looking at public land...how do we enable communities to have access to publicly owned land, NRW and local authority land, and roof space and things like that as well?"*³⁹

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE07 Ripple Energy

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 452, 3 Mawrth 2022

³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 109, 3 Mawrth 2022

62. Eglurodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod awdurdodau lleol wedi ymrwymo i nodi cyfleoedd i ddefnyddio tir sy'n eiddo i awdurdodau lleol ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy posibl. Dywedodd fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud eisoes i nodi cyfres o brosiectau.⁴⁰

63. Yn ei adroddiad, ***A plan for Wales' renewables future: Essential actions to re-energise Wales by 2035 (Saesneg yn unig)***, Galwodd y Sefydliad Materion Cymreig ar Cyfoeth Naturiol Cymru i ddyrannu o leiaf pum safle am o leiaf 15MW y flwyddyn ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo llawn i'r gymuned ac awdurdodau lleol, a thri safle am o leiaf 60MW y flwyddyn ar gyfer cynlluniau rhanberchnogaeth, am rhent enwol neu rhent hedyn pupur. Awgrymodd RenewablesUK Cymru hefyd y gellid defnyddio'r ystâd gyhoeddus i hwyluso prosiectau rhanberchnogaeth:

"on the public estate, Welsh Government could, if it wanted to, insist on a certain percentage of a project being given to a local community free of charge as part of its terms of tender. It could insist that a percentage of a project would be invested in at cost by communities, once it was built, i.e. without any of the development risk".⁴¹

64. Tynnodd RWE Renewables UK sylw at y ffaith, y tu allan i ganolbarth Cymru, fod mwyafrif helaeth y tir sy'n addas ar gyfer prosiectau ynni gwynt ar y tir ar raddfa fawr ar Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru. Roedd yn argymhell "dull partneriaeth cyhoeddus/preifat" tuag at ddatblygiad ar yr Ystâd Coetir a allai "weithredu fel 'Bargen y Sector ar y Tir' rhwng y diwydiant a Llywodraeth Cymru". At hynny, dywedodd RWE Renewables UK fod amllder tendrau ar yr Ystâd Coetir yn "rhy araf ac yn cael eu hysgogi gan adnoddau CNC yn hytrach na brys newid hinsawdd".⁴²

Arferion caffael cyhoeddus cefnogol

65. Dywedodd Ynni Cymunedol Cymru wrth y Pwyllgor fod datblygiadau ynni cymunedol yn aml yn mynd yn groes i brosesau caffael.⁴³ Eglurodd fel a ganlyn:

"We are currently working on developing the largest community owned energy project in the UK a 30MW solar farm. We could be in a situation where we end up selling the power from that scheme to Local Authorities in

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE10 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 121, 3 Mawrth 2022

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, RE05 RWE Renewables UK

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE11 Ynni Cymunedol Cymru

*England because the procurement services in Wales haven't enabled us to sell the energy to the Welsh public sector."*⁴⁴

66. Dywedodd Ynni Cymunedol Cymru fod angen bod yn llawer mwy dewr o bosibl wrth fwrw ymlaen â phroblemau caffael canfyddedig heriol.⁴⁵

67. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod awdurdodau lleol wedi edrych ar gyfleoedd i gefnogi buddsoddiad mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys gwneud ymrwymadau i brynu'r ynni a gynhyrchir o gynlluniau. Fodd bynnag, eglurodd y "bydd unrhyw bryniant o'r fath ymlaen llaw yn destun gofynion caffael", a all osod cyfyngiadau ar allu awdurdodau lleol i ymrwymo i un prosiect penodol.⁴⁶

Rôl Ynni Cymru

68. Ar hyn o bryd, cefnogir prosiectau ynni lleol gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a thrwy gyllid grant ar gyfer Ynni Cymunedol Cymru. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth technegol, masnachol a chaffael am ddim i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni. Hefyd, mae'n helpu gyda chynllunio ariannol a chyllid, gan gynnwys benthyciadau di-log a grantiau.

69. Mae'r **Cytundeb Cydweithrediad** rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i weithio tuag at greu Ynni Cymru, cwmni ynni cyhoeddus i Gymru, i ehangu cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned. Mae argymhellion y gwaith ymchwil manwl yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y sector ynni cymunedol yn rhan o Ynni Cymru, ac yn nodi'r opsiynau ar gyfer cyflawni hyn.

70. Roedd Ynni Cymunedol Cymru yn gefnogol o'r cysyniad o gwmni ynni cyhoeddus a dywedodd ei fod yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer Ynni Cymru ar hyn o bryd. Dywedodd fod bwriad Ynni Cymru yn gadarnhaol ac mae'r cysyniad yn un da, ond y bydd llawer yn dibynnu ar faint o adnoddau sy'n cael eu darparu i'r corff hwn a sut mae'n esblygu.⁴⁷

71. Dywedodd RenewablesUK Cymru, fod yr egwyddor sy'n sail i Ynni Cymru yn gadarn yn gyffredinol. Mynegodd y farn y dylai Ynni Cymru ategu gweithrediad y sector masnachol er

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE11 Ynni Cymunedol Cymru

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 88, 3 Mawrth 2022

⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE10 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE11 Ynni Cymunedol Cymru

mwyn sicrhau gwerth cymdeithasol, a galwodd am fwy o eglurder ynghylch y berthynas rhwng y ddau yn y dyfodol.⁴⁸

72. Holodd datblygwyr ai sefydlu cwmni ynni cyhoeddus oedd y ffordd fwyaf priodol o gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i gyflymu datblygiad ynni adnewyddadwy. Dywedodd RWE Renewables UK:

*"Rydym ni'n arbennig o bryderus y dylid canolbwyntio'r flaenoriaeth ar fynd i'r afael â newid hinsawdd, ac y byddai sefydlu cwmni o'r fath yn cymryd amser, adnoddau a sylw oddi wrth y dasg hollbwysig hon ac y byddai hefyd mewn perygl o leihau pa mor ddeniadol yw Cymru i gwmnïau preifat ac yn oedi adeiladu ynni adnewyddadwy."*⁴⁹

Trefniadau budd cymunedol

73. Mae'n gyffredin i ddatblygwyr masnachol wneud cyfraniadau ariannol i gymunedau lleol y mae eu prosiectau'n effeithio arnynt. Gelwir y trefniadau hyn yn 'fuddion cymunedol'. Mae'r rhain yn drefniadau gwirfoddol rhwng y gymuned a'r datblygwr, a all fod ar wahanol ffurfiau.

74. Mae Cronfa Budd Cymunedol yn golygu bod y datblygwr yn talu i mewn i gronfa sydd wedyn ar gael i ariannu prosiectau cymunedol. Gall fod ar ffurf swm blynyddol sefydlog a delir fesul MW o gapasiti gosodedig, taliad blynyddol amrywiol sy'n gysylltiedig ag elw neu fesurau allbwn trydan, cyfandaliadau, neu gymysgedd o'r rhain.

75. Er bod RWE Renewables UK yn cydnabod pwysigrwydd darparu cyfleoedd ar gyfer rhanberchnogaeth, roedd yn annog peidio â diystyru'r gwerth y mae cymunedau'n ei roi ar fuddion cymunedol, ac y byddai'n well gan rai pobl gael y diffibriliwr hwnnw, y byddai'n well ganddynt gael y neuadd bentref honno na chyfran mewn fferm wynt.⁵⁰ Dywedodd RWE Renewables UK ei fod yn credu bod buddion cymunedol yn allweddol i ennill calonnau a meddyliau cymunedau a allai gael eu heffeithio'n negyddol gan brosiectau, gan eu gwneud yn fwy derbyniol yn gymdeithasol nag a fyddai'n wir fel arall.⁵¹

76. Dywedodd RWE Renewables UK y byddai'n cefnogi mandadu buddion cymunedol cyfradd sefydlog fesul MW i'w dynnu allan o'r broses gystadleuol.⁵²

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 151, 3 Mawrth 2022

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, RE05 RWE Renewables UK

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 450, 3 Mawrth 2022

⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 448, 3 Mawrth 2022

⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 467, 3 Mawrth 2022

Ein barn ni

Clywsom y bydd cynnydd mewn rhanberchnogaeth yn allweddol i ysgogi mwy o berchnogaeth gymunedol a lleol. Nid yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar ranberchnogaeth yn ddigon clir. Dylai roi cyfeiriad cryfach i ddatblygwyr masnachol i sicrhau eu bod yn cynnig rhanberchnogaeth fel opsiwn. Disgwylwch i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar ranberchnogaeth fynd i'r afael â hyn. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu polisiau priodol i annog a chymell rhanberchnogaeth ar ddatblygiadau masnachol newydd o bob maint ac ar ddatblygiadau presennol pan maent yn cael eu hailbweru neu eu hystemyn.

Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried opsiynau i gefnogi'r broses o gynhyrchu ynni adnewyddadwy drwy ryddhad Ardrethi Annomestig ac arferion caffael y sector cyhoeddus. Edrychwn ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed wrth symud y gwaith hwn yn ei flaen.

Er ein bod yn cydnabod yr angen i Lywodraeth Cymru gydbwyso galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd ar ei Hystâd Coetir⁵³, credwn fod rhinwedd mewn archwilio sut y gellir ei defnyddio'n well i gefnogi twf y sector ynni adnewyddadwy. Mae'n galonogol clywed am y gwaith sydd eisoes ar y gweill ar draws awdurdodau lleol i nodi tir sy'n addas ar gyfer datblygiadau adnewyddadwy. Nid yw'n glir a oes gwaith tebyg yn cael ei wneud ar draws sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

Nodwn y dystiolaeth gan gyfranwyr sy'n ffafrio gofyniad am lefel ofynnol o berchnogaeth leol ym mhob datblygiad ynni adnewyddadwy newydd. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyn yn ei hadolygiad o dargedau ynni adnewyddadwy yn y dyfodol.

Mae diffyg eglurder ynghylch rôl Ynni Cymru yn natblygiad y sector ynni adnewyddadwy a'i effaith bosibl ar y sector masnachol. Rydym yn cydnabod bod cynigion ar gyfer Ynni Cymru yn dal yn eu dyddiau cynnar. Fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi ei syniadau cynnar ar rôl Ynni Cymru, gan gynnwys sut y bydd yn rhyngweithio â'i Gwasanaeth Ynni, a sicrhau mwy o dryloywder wrth i gynigion ddod i'r amlwg.

Rydym yn cydnabod, i rai cymunedau, efallai na fydd rhanberchnogaeth yn opsiwn deniadol neu ddichonadwy. Yn yr achosion hyn, rhaid i gymunedau gael eu cefnogi a'u grymuso i sicrhau 'buddion cymunedol' sy'n diwallu eu hanghenion ac yn darparu buddion parhaol. Clywsom y

⁵³ Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r coetiroedd yng Nghymru sy'n eiddo i Weinidogion Cymru ar ran y wlad. Mae Gweinidogion Cymru wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros reoli'r Ystâd i Cyfoeth Naturiol Cymru.

byddai gorfodi lefel briodol ar gyfer Cronfeydd Budd Cymunedol yn rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr a chymunedau. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid cyflawni hyn yn y ffordd orau.

Argymhelliad 12. Rhaid i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar ranberchnogaeth nodi'n glir ei disgwyliad i ddatblygwyr masnachol gynnig rhanberchnogaeth fel opsiwn ar gyfer pob prosiect newydd, gan gynnwys y rheini sydd yn yr arfaeth, ac ar gyfer datblygiadau presennol pan gânt eu hailbweru neu eu hymestyn.

Argymhelliad 13. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n defnyddio'r ysgogiadau sydd ganddi i annog a chymell rhanberchnogaeth.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar y defnydd o dir cyhoeddus (gan gynnwys tir sy'n eiddo i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol) ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ac egluro sut y mae'n gweithio gyda'r sector cyhoeddus i nodi safleoedd sy'n eiddo cyhoeddus sy'n addas ar gyfer prosiectau posibl.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ystyried sut, os o gwbl, y gellir defnyddio'r ystâd gyhoeddus yn well i gefnogi twf y sector ynni adnewyddadwy, gan gynnwys datblygiadau rhanberchnogaeth.

Argymhelliad 16. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau bod cymunedau lleol yn cael eu cefnogi a'u grymuso i sicrhau 'buddion cymunedol' o ddatblygiadau masnachol lle nad yw rhanberchnogaeth yn cael ei hystyried yn opsiwn ffafriol. Rhaid iddi hefyd nodi ei safbwynt ar orfodi lefel briodol ar gyfer Cronfeydd Budd Cymunedol, gan gynnwys opsiynau ar gyfer cyflawni hyn.

Argymhelliad 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at ddatblygu cynigion ar gyfer Ynni Cymru, gan gynnwys sut y bydd yn ategu gwaith y sector masnachol, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd â'r nod o gefnogi prosiectau'r gymuned a'r sector cyhoeddus.